PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 159 | Rhif 24 | Mehefin 11, 2026 | 50c.

## Hope-Siloh

Braf oedd croesawu'r Parchg Darchonhaia Darnei o'r India, sydd ar ymweliad â Chymru, y Parchg Angharad Griffith a Mrs Carol Jenkins, mam Angharad, i'n gwasanaeth ar fore Sul Mai 17. Mae'r Parchg Darnei yn swyddog gyda CWM ac yn Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd India. Cyfieithodd hefyd y Beibl i'r iaith Biate. Gwahoddwyd ef i gyflwyno anerchiad byr yn sôn am ei gefndir ac i ymuno â ni yn ein gwasanaeth Cymorth Cristnogol a Neges Ewyllys Da yr Urdd. Cyflwynwyd Neges Ewyllys Da yr Urdd gan y plant a'r ieuenctid – neges a oedd yn tynnu sylw at ieithoedd lleiafrifol a'r pwysigrwydd o sicrhau dyfodol y Gymraeg heddiw.

### Cymorth Cristnogol

Gan ei bod yn wythnos Cymorth Cristnogol cyflwynwyd neges bwrpasol ar lafar ac ar gân yn amlinellu gwaith Cymorth Cristnogol gan y Criw Aelodau. Rhaid diolch i Meinir, Luned, Gwen ac Eric am drefnu'r gwasanaeth ac i Marie-Lynne am arwain. Bu nifer o'n teuluoedd lan yn eisteddfod yr Urdd ar Ynys Môn a hoffem longyfarch pawb o'r plant fu'n cymryd rhan.

**J. Clarke**






## Llanfair Pen-rhys

Mae'n bleser rhannu'r newyddion da bod chwech o'n ffrindiau (Anne Lord, Jan Griffiths, Harvey Jay, Alexis Roberts, Michelle Matthews, Natasha Roberts a Neil Thomas) wedi cael eu derbyn yn aelodau o Eglwys Unedig Llanfair ar nos Fawrth, 5 Mai. Arweiniwyd yr oedfa arbennig gan yr Esgob Mary yn eglwys St Matthew, Treorci.







Fel pob blwyddyn, roedd mis Cymorth Cristnogol yn brysur ym Mhen-rhys gyda chasgliadau o dŷ i dŷ; oedfaon i groesawu plant ysgol gynradd Pen-rhys wrth i ni ddysgu gyda'n gilydd am waith yr elusen hon. Cyfeiriwyd at y gwahaniaeth mae partner Cymorth Cristnogol sef, Beacon of Hope, yn ei wneud i fywydau pobl fel Belinda a'i theulu yn Kenya. Cawsom hefyd gyfle i gerddded rhan o bererindod noddedig o Ben-rhys i Lantrisant. Rydyn ni'n gobeithio cwblhau'r bererindod i eglwys gadeiriol Llandaf ym mis Mehefin.

# Dau ddylanwad a barodd

Erbyn hyn aeth bron i dri chwarter canrif heibio ers i mi ddod i gyffyrddiad am y tro cyntaf gyda dau ddylanwad a barodd chwilfrydedd oes. Y cyntaf oedd dod yn ymwybodol (anwybodol? isymwybodol?) o ffiseg yn ysgol ramadeg y bechgyn Castell-nedd yn y bedwaredd flwyddyn; cyn hynny ces wersi ‘science’ yn Abertawe. O dipyn i beth daeth ffiseg yn ffynhonnell cyrsiau pellach, gradd a gyrfa. Rwyn cofio’n ddiolchgar am fy athrawon ysgol, Tom Pugh, Wil Morgan a Myron Davies.

## Ffiseg

Gadewais ysgol Castell-nedd yn llawn hyder mewn ffiseg glasurol a ddeilliodd o waith yr athrylith Isaac Newton (1642–1727), symudiadau popeth yn drefnus, planedau, peli a cherbydau. Felly, roedd yn sioc fawr wrth gychwyn cwrs prifysgol i glywed darlithydd yn datgan, ‘Anghofiwch bopeth a gawsoch yn eich ysgol.’ Wrth gwrs, arddull gor-ddweud oedd ar waith yma er mwyn creu effaith, sef, i’n rhybuddio bod ffiseg yr ugeinfed ganrif yn gwbl wahanol i ffiseg Newton, dan ddylanwad Albert Einstein (1879–1955) ac eraill. Y ffiseg fodern hon yw sail rhyfeddodau ein bywyd cyfoes, ffonau a satnav (tom-tom) ac ati. Ymhlith y mwyaf rhyfedd o ddatganiadau’r meddwl newydd yw’r Egwyddor Ansicrwydd (The Uncertainty Principle).



## Cristnogaeth

Digwyddodd yr ail gyffyrddiad tua’r un oedran pan gefais fy nerbyn yn gyflawn aelod yng nghapel y Tabernacl, Sgiwen, ger Castell-nedd a dod yn ymwybodol (anwybodol? isymwybodol?) o Gristionogaeth. Cyn hynny roedd fy mhrofiad yn troi o gwmpas oedfaon capel Saron, Gendros, Abertawe. Rwyn cofio’n ddiolchgar am bregethau’r Parchg Alun Page yn Sgiwen. Ganddo ef y clywais enwau diwinyddion amlwg y cyfnod megis Karl Barth, Emil Brunner a Paul Tillich a deall bod amrywiaeth dehongliad yn bosibl ac nid uniongrededd difeddwl oedd y disgwyl. Ches i erioed, mewn ysgol na choleg, yr un wers mewn addysg grefyddol nac ysgrythur. O’r herwydd, rwy’n llwyr anwybodus o unrhyw chwildro tebyg i’r hyn ddigwyddodd mewn ffiseg. A oes ateb i’m cwestiwn? Ydy’r cwestiwn yn un dilys i’w ofyn?



## Data

Dylid sylwi nad dileu ffiseg Newton a wnaeth ffiseg Einstein, ond cyflwyno mynegiant mwy priodol at sefyllfaoedd newydd. A dyma fi’n dod at anhawster sy’ wedi fy mlino ers tro wrth geisio ymhél â deunydd darllen crefydd, diffyg data i egluro beth yn union sy dan sylw. Gyda ffiseg mae’r eirfa yn glir, syml a phenodol. Nid felly crefydd, gan arwain at aneglurder mynegiant a chymhlethdod meddwl.

Felly, er mwyn difyrrwch syml a diniwed (wir i chi), mentrais yn ddiweddar ar fenter cyfrif sawl enghraifft sy’ yn y Salmau (150) o’r teitl ‘Duw’ a’r teitl ‘Arglwydd’ a nodi teitlau eraill. A oes gwir angen cael y fath amrywiaeth? Mae’r tabl isod yn crynhoi fy ymdrechion gyda salmau 1–10. Mae croeso i chi wneud yr un fath gyda’r 140 sy’n weddill ac anfon gair. Er syndod i mi, dysgais dipyn mwy na’r data moel; cofier nad pentyrru data yw prif nodwedd ffiseg dda, ond dweud hanes.

| Rhif | Sawl Duw | Sawl Arglwydd | Teitlau eraill yn y salm |
|---|---|---|---|
| 1 | 0 | 2 | 0 |
| 2 | 0 | 4 | 0 |
| 3 | 2 | 6 | 0 |
| 4 | 1 | 5 | 0 |
| 5 | 3 | 5 | 0 |
| 6 | 0 | 8 | 0 |
| 7 | 3 | 4 | Ar’dd fy Nuw (2), A y Gor’af |
| 8 | 0 | 0 | Ar’dd ein Iôr (2) |
| 9 | 1 | 9 | Y Goruchaf |
| 10 | 3 | 4 | Ar’dd o Dduw |

**Neville Evans**

# Cyflwyno Elowen



Yn Saron, y Creunant, cynhaliwyd gwasanaeth o gyflwyniad i groesawu Elowen, merch fach Cari a David, i’n teulu eglwysig. Mae’r cwpwl yn fynychwyr ffyddlon yn Saron ar y Sul, ac mae Elowen hefyd yn ymuno â’n grŵp babanod bob dydd Mawrth gyda’i mam.

Priodwyd Cari a David yn Saron ddwy flynedd yn ôl, ac ers hynny maent wedi parhau i fod yn rhan weithgar o fywyd yr eglwys. Maent yn gobeithio ymuno fel aelodau yn y dyfodol agos.

Yn y llun gwelir Elowen gyda’i rhieni, ynghyd â ffrind gorau’r teulu, Andrew. Yn ystod y gwasanaeth, gwnaeth y gynulleidfa gyfan addewid i gefnogi’r rhieni wrth iddynt fagu Elowen yn y ffydd Gristnogol, gyda’r gobaith y daw hi un diwrnod i brofi ei ffydd ei hun. Roedd yr oedfa yn fendith i bawb.

Yr Adran
Gydenwadol

11 Mehefin 2026
Rhifyn 276

I ddarllen y cyhoeddiad digidol
*Cenn@d* yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru

# 5,000 o emynau a mwy –
## ail-lansio gwefan www.gobaith.cymru

Ers ei lansio yn 2002 mae gwefan gobaith.cymru wedi bod yn ffynhonnell werthfawr i bawb sy'n chwilio am emynau Cymraeg. Yn ddiweddar cafodd y wefan hon ei diwygio a'i ail-lansio, gyda nifer o ychwanegiadau i gefnogi'r rhai sy'n cynnal mawl a chân yn ein heglwysi. Ymhlith y diweddariadau hyn y mae'r canlynol:

### Adran Caneuon Newydd

Dyma'r cynnwys gwreiddiol, sef geiriau a chyflwyniadau PowerPoint o ganeuon ac emynau, hen a newydd, yn Gymraeg. Mae nifer o bobl ar draws Cymru yn cyfansoddi ac yn cyfieithu emynau, ac mae gobaith. cymru yn gartref i'r geiriau hyn. Mae pob emyn sydd ar y wefan wedi ei awdurdodi gan y cwmni cerddoriaeth sy'n dal yr hawlfraint, ac atgoffwn bobl yn garedig nad oes hawl i ganu geiriau Cymraeg nad ydynt wedi eu hawdurdodi gan y cwmni sy'n berchen arnynt. Bydd caneuon newydd yn cael eu hychwanegu'n gyson, a bydd Delyth Wyn Davies, sy'n gyfrifol am weinyddu'r wefan, yn falch o dderbyn unrhyw gyfieithiadau newydd.

### Adran Gwybodaeth am Emynau

O fewn yr adran hon ceir pob math o wybodaeth sy'n sôn am ffynonellau, adnoddau, trwyddedau, gwybodaeth hawlfraint, ffynhonnell cyfrolau emynau i bob oed, a gwybodaeth am wefannau eraill lle mae clipiau ffilm ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gall hyn fod yn help i eglwysi wrth geisio dysgu emynau newydd.



















*Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

## Adran *Caneuon Ffydd*

Erbyn hyn mae bron pob cynulleidfa Gymraeg yn defnyddio *Caneuon Ffydd*. Yn yr adran hon ceir tri mynegai i eiriau'r emynau: yn ôl themâu; yn ôl cyfeiriadau Beiblaidd; ac yn ôl llinellau cyntaf penillion yr holl emynau yn y casgliad.

## Adran 5,000 a mwy o emynau

Hwn, mae'n debyg, yw'r casgliad mwyaf o emynau Cymraeg sydd ar gael ar lein. Casglwyd yr emynau gan y Parch. Richard Gillion, Porthcawl, dros ddegawdau. Yn ogystal â geiriau'r emynau ceir hefyd gyfieithiad Saesneg, sy'n gymorth i'r rhai di-Gymraeg sy'n canu'r geiriau i ddeall eu hystyr. Eto, ceir mynegair cynhwysfawr i'r casgliad.

## Adran Traciau Cyfeiliant *Caneuon Ffydd*

Mewn cydweithrediad â Small Church Music, ceir cannoedd o donau yma i gyd-fynd â holl emynau *Caneuon Ffydd*. Mae rhestr o'r emynau yn nhrefn *Caneuon Ffydd* ar y wefan, a thrwy glicio ar eiriau'r emyn cewch fynediad at draciau mp3, yn rhad ac am ddim, sy'n cynnwys cyfeiliant piano, organ neu gerddorfa. Noder bod angen cofrestru (nid oes cost i wneud hyn) ac wedi gwneud hynny un waith fe gewch fynediad dro ar ôl tro, heb fod angen cofrestru eto.

## Adran Cyfeiriadur Dwyieithog

Bydd llawer yn holi a yw'r emyn hwn a'r llall ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg! O fewn y cyfeiriadur hwn mae modd edrych ar restr yr emynau Cymraeg neu Saesneg, a gweld a yw'r emyn hwnnw hefyd ar gael yn yr iaith arall. Byddem hefyd yn falch o glywed gan unrhyw un sy'n gwybod am eiriau rhagor o emynau sydd ar gael yn y ddwy iaith.

**Diolchwn i Arfon Jones am ei weledigaeth yn sefydlu'r wefan hon, a'n braint ni fel Cyngor yr Ysgolion Sul yw parhau â'r gwaith a ddechreuwyd gan Arfon, ac yna a gyflawnwyd gan Gwenda Jenkins.**

Meddai Arfon, 'Cafodd gwefan gobaith.org ei lansio bron chwarter canrif yn ôl yn 2002 gan Gobaith i Gymru, ochr yn ochr â gwefan beibl.net. Y bwriad gyda beibl.net ar y pryd oedd rhannu cyfieithiad mwy llafar ei natur o'r Testament Newydd i ddenu mwy o bobl i ddarllen yr Ysgrythur. Roedd y cyfieithiad wedi'i anelu at bobl ifanc a dysgwyr y Gymraeg yn bennaf, i'w helpu i ddeall neges y Testament Newydd yn well. Bwriad yr ail wefan, gobaith.org, oedd gwasanaethu'r eglwysi drwy rannu emynau cyfoes yn rhad ac am ddim ar lein. Roedd llawer o'r caneuon eisoes wedi ymddangos yn y casgliadau *Iddo Ef!*, *Grym Mawl* a *Grym Mawl 2*.

'Y weledigaeth oedd gwasanaethu achos Iesu Grist ymhlith y Cymry Cymraeg drwy ymateb yn greadigol i'r argyfwng ysbrydol roeddem yn ei wynebu. Un o'n sloganau ar y pryd oedd "Rhaid i bethau newid!" Roeddem yn awyddus i helpu mwy a mwy o eglwysi i fynd i'r afael â'r angen i newid os oeddem yn mynd i genhadu'n effeithiol a bod yn eglwysi ffyddlon a pherthnasol yn yr unfed ganrif ar hugain. Rhan o hyn oedd helpu eglwysi a Christnogion i wneud defnydd o'r dechnoleg ddigidol oedd ar gael ar y pryd. Roeddem hefyd am annog eglwysi i ddefnyddio caneuon mwy cyfoes yn eu haddoliad. Roedd rhaid ystyried gwneud pethau newydd a gwahanol, ac nad oedd "parhau fel yr oedden ni" yn opsiwn cenhadol. Roeddem am geisio herio'r ysbryd o anobaith oedd yn nodweddu cymaint o'n cynulleidfaoedd, y dirywiad "disgwyliedig" yn y niferoedd oedd yn mynychu addoliad, a'r ffaith fod cenhedlaeth o bobl ifanc yn troi cefn ar ein heglwysi.

gobaith.cymru
Cyngor Ysgolion Sul
Emynau a chaneuon mawl i'w lawrlwytho am ddim

'Ond roeddem hefyd yn ymwybodol fod nifer fawr o Gymry Cymraeg (gan gynnwys llawer o'n pobl ifanc) yn dewis addoli mewn eglwysi Saesneg eu hiaith. Roedd natur yr addoliad yn yr eglwysi hynny yn tueddu i fod yn llawer mwy rhydd a chyfoes ei naws. Felly, roedd darparu cyfieithiadau o emynau a chaneuon addoli cyfoes oedd yn boblogaidd yn y Saesneg yn un ffordd o helpu eglwysi i gynnig rhywbeth gwahanol i'w cynulleidfaoedd. Roeddem am weld pontio'r gagendor rhwng y diwylliant cyfoes Cymraeg oedd yn datblygu ymhlith y to ifanc a'r eglwysi oedd yn rhy aml yn gwbl gaeth i'w patrymau traddodiadol o addoli. Roedd y cyfieithiadau cyfoes hyn hefyd yn galluogi rhai o'r eglwysi di-Gymraeg, a mudiadau Cristnogol amrywiol oedd yn gweithio yng Nghymru, i ddarparu a datblygu eu haddoliad mewn modd fyddai'n cynnwys elfen o ddwyieithrwydd.

'Dros y blynyddoedd ychwanegwyd mwy a mwy o gyfieithiadau newydd o ganeuon addoli cyfoes a rhai caneuon gwreiddiol i'r casgliad. Yna, yn ddiweddarach, penderfynwyd mynd ati (gyda chaniatâd deiliaid yr hawlfraint) i ychwanegu'r emynau o *Caneuon Ffydd*, eto gyda'r bwriad o sicrhau fod yr adnoddau hyn ar gael yn ddigidol.

'Pan ddaeth yr elusen Gobaith i Gymru i ben yn 2018, y cam naturiol yn ein golwg oedd trosglwyddo'r ddwy wefan i ofal y Cyngor Ysgolion Sul.'

Yn yr un modd, diolchwn i Richard Gillion am ymddiried ei gasgliad o emynau i'n gofal. Bu'r rhain ar wefan Angelfire tan i honno ddod i ben yn ddiweddar, felly mae'n dda eu bod ar gael unwaith eto i'w lawrlwytho.

Wrth ei holi am ei waith, dywedodd Richard, 'Ar biano fy nain a nhaid yn Swydd Efrog roedd copi o *Emynau a Thonau*, rhodd iddyn nhw gan bregethwr gwadd. Dechreuais gymharu cyfieithiadau Cymraeg o emynau Saesneg â'r fersiynau gwreiddiol, gan ddefnyddio fy sgiliau sylfaenol, hunanddysgedig yn Gymraeg. Cyn bo hir roeddwn yn awyddus i ddeall yr emynau Cymraeg gwreiddiol.

'Ar ôl cael fy ngalw yn weinidog Methodistaidd i symud i Gasnewydd, penderfynais ddysgu'r iaith yn fwy trylwyr. Ehangais fy nghasgliad bach o gyfieithiadau llythrennol ac fe dyfodd dros y deng mlynedd canlynol yn gorff sylweddol o waith.

'O ganlyniad i'r gwaith hwn cefais fy annog i ystyried penodiad pum mlynedd i weinidogaethu yng Ngwynedd ac Ynys Môn, lle roeddwn yn defnyddio'r cyfrolau *Emynau a Thonau* a *Caneuon Ffydd* o ddifri bob wythnos.


'Rwy'n falch o fod wedi derbyn negeseuon o werthfawrogiad o bob cwr o'r byd. Gall aelodau corau yn Awstralia ddeall beth maen nhw'n ei ganu. Mae'n galonogol iawn fod gan fy nghasgliad o gyfieithiadau gartref newydd bellach ar y we.'

Mae'r holl adnoddau ar wefan www.gobaith.cymru am ddim, a hyderwn bydd yr adnodd hwn yn fodd i gyfoethogi addoliad ar draws Cymru.

*Aled Davies*

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




**Codi'r Llen 26**

## Ymson Delila

Fi yw'r ferch a fradychodd Samson. Serch hynny, ymbiliaf arnoch i weld sut y cefais fy nhemtio gan leisiau dynion pwerus. Roedden nhw yn fy nghlustiau bob munud, yn boddi llais fy nghydwybod. Dyna pam y syrthiais a dewis cyfnewid ffyddlondeb am arian.

Gwyddwn fod Samson yn ddyn oedd yn perthyn i Dduw ac nad oedd modd ein cymharu ni – fi a fe. Ond, o edrych yn fwy gofalus, onid oeddem ein dau'n bobl diffygiol?

Cofir Samson am ei gryfder. Pan ddaeth ataf am y tro cyntaf, gwelais ddyn allai rwygo pen llew oddi ar ei gorff neu dorri rhaffau'n ddarnau fel pe baent yn edafedd sidan. Roedd cenhedloedd yn ei ofni, a'r pryd hwnnw gwelais rywun na allai gael ei ddifa. Ymhen ychydig, deallais ei fod yn ymddiried yn ormodol yn y rhodd a gawsai, yn hytrach nag yn y Rhoddwr. Teimlais ei fod yn cerdded yn agos at y dibyn; gwyddwn, wrth gwrs, y dylai osgoi hynny ar bob cyfrif. Gêm oedd temtasiwn iddo, a chredai mai ef fyddai'r olaf ar ei draed bob tro. Wyddai o ddim fy mod yn gweld ei gorff hardd ond hefyd yn gweld i mewn i'w enaid. Doedd e ddim bob amser yn gryf ac yn sicr; doedd e ddim yn berffaith!

Beth amdanaf fi? Fedrwn i ddim difa llu o filwyr arfog, ond roeddwn yn rymus drwy fy harddwch. Yn fy nghalon, serch hynny, roedd gwendid – rhywbeth oedd yn fy ngwthio i ddymuno mwy. Cefais ddynion yn fy chwennych, mae'n wir, ond fe flinais arnynt. Pan ddaeth addewid am aur ac arian, daeth haen o niwl dros gannwyll fy llygaid a chefais fy nallu gan hunanoldeb.

Erbyn hynny roedd Samson yn fy ngharu. Gallwn fod wedi parhau i nofio mewn môr o gariad, ond roedd y dyheu am ennill y gêm yn fwy na hynny. Rhaid oedd cael gwybod ei gyfrinach; daeth y peth yn obsesiwn, a fedrwn i ddim meddwl am ddim arall. Dechreuais ei holi'n ddi-baid. Weithiau byddai'n rowlio'i lygaid ac yn ochneidio, ond roedd Samson yn wahanol i bawb arall: roedd ganddo amynedd. Bob dydd, ro'n i'n hanner disgwyl iddo wylltio a sylweddoli'r gwir. Fy ngwendid innau oedd fy mod yn rhoi mwy o bwys ar yr hyn y gallwn ei gael, yn hytrach na dal gafael ar y gwir.

Mae rhai wedi holi sut allai Samson fod wedi ymddiried ynof ar ôl cynifer o arwyddion i'r gwrthwyneb. Yn ei berthynas â mi, roedd e wedi meddwl ei fod yn saff ac y gallai fod yn hyderus. Efallai ei fod hefyd yn gweld adlewyrchiad ohono'i hun ynof fi: person oedd weithiau'n annoeth ac yn brydferth ar adegau eraill. Wrth edrych 'nôl, gwelaf sut yr oedd Duw gydag e ym mhob cam. A'r hyn sy'n fy synnu yw'r sylweddoliad fod Duw'n aros gyda dyn amherffaith fel Samson. Fe wnaeth gamgymeriadau, fe fethodd nifer o weithiau. Ond, wrth iddo gwympo, roedd Duw yn ei ddal. Wrth i'w elynion ddathlu, roedd Duw'n dangos nad dyna ddiwedd y stori. Yn nhywyllwch ei gaethiwed, deallodd Samson rywbeth mawr. Gwelodd mai peth brau yw cryfder dyn. Gwelodd falchder yn dymchwel. Gwelodd mai'r hyn sy'n cynnal rhywun yw dibyniaeth ar Dduw.

Fedra i ddim esgusodi fy rhan i yn ei bennod olaf. Ni allaf chwaith ddad-weld yr hyn a welais: fod Duw yn gweithio drwy bobl ddiffygiol. Gofynnaf ichi gofio'r ddau ohonom felly, a'n gwendid. Yna, wrth edrych uwchlaw hynny, fe welwch y gwirionedd yn pelydru. Ie, peth real yw gwendid person, ond mae gras Duw yn fwy o lawer nag unrhyw wendid dan yr haul.

**Holi**

- Cafodd Delila ei hudo gan drachwant ac elw personol. Beth yw'r pethau sy'n ein temtio ni i gyfaddawdu o safbwynt ein gwerthoedd? Sut allwn ni wrthsefyll y temtasiynau?
- Anwybyddodd Samson y rhybuddion a pharhau i ymddiried, heb weld y niwed nes ei bod yn rhy hwyr. Wyddoch chi am enghreifftiau o hyn yn digwydd yn ein hoes a'n hamser ni?
- Pa rôl ddylai doethineb, atebolrwydd, a deisyf arweiniad Duw ei chwarae yn ein penderfyniadau?
- Pa wendidau sy'n anos inni eu hadnabod ynom ein hunain? A sut gall perthyn i gymuned Gristnogol fod o fudd inni fynd i'r afael â'n gwendidau?
- Sut gall y stori hon ein goleuo am ras Duw a'i allu i weithio drwy bobl amherffaith?

**Gweddi**

Arbed ni rhag ein balchder
a'n hunanoldeb.
Gwarchod ni rhag ein dewisiadau
gwael a rhag ymddiried mewn
pethau annoeth.
Atgyfnertha ni â'th rymuster.
Pan fyddwn yn syrthio,
tyn ni yn ôl atat a'th gariad.
Diolchwn am dy ras anhraethol
all ein hadnewyddu drachefn a
thrachefn. Amen.

**Siân Meinir**

**Cyhoeddiadau Radio, 14 Mehefin 2026**
**Radio Cymru**

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 14 Mehefin,**
**am 7:30yb a 4:30yp**
Cymanfa Ganu Cofio Caradog Roberts, dan arweiniad Trystan Lewis (ailddarllediad)

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 14 Mehefin am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Kirsty McGhee, Tonbridge

# Creiriau Lewis a Ieuan

Y mae ymchwilio i, a dysgu am ein hanes Cristnogol fel Cristnogion Cymraeg yn bwysig. Oherwydd:

i. Dysgwn am arwyr ac arwresau ffydd sydd wedi tystio yn ffyddlon i'r Arglwydd Iesu dros y canrifoedd ar y talp hwn o dir.

ii. Mae angen i ni wybod ein cefndir a'n gwreiddiau.

iii. Mae hyn yn help i ni ddeall pwy ydym gan ei fod yn rhan o'n cynhysgaeth fel cenedl.

iv. Mae anwybodaeth ddybryd am ein hanes fel cenedl ymhlith ein pobl ein hunain ac mae hynny'n llawer gwaeth ymhlith Cymry di-gymraeg.


Y mae tuedd ymhlith Cristnogion di-gymraeg i gredu mai hanes Cristnogaeth yn Lloegr yw hanes Cristnogaeth yng Nghymru ac mae hynny'n gwbl gamarweiniol. Wrth i lywodraeth newydd Senedd Cymru ystyried y cwricwlwm hanes i ysgolion fe ddylid gofyn iddynt sicrhau bod rhan ohono'n cyfeirio at ein hanes Cristnogol. Oherwydd, yn syml, heb ddylanwad Cristnogaeth, ni fyddem yma yn siarad Cymraeg.

## Blychau

Er bod gwneud gwaith ymchwil hanesyddol yn gallu bod yn undonog a diflas, ambell dro fe geir gwefr aruthrol wrth ddod ar draws pethau annisgwyl. Mae hynny wedi digwydd i mi nifer o weithiau dros y blynyddoedd. Y llynedd gwelodd Gwilym Tudur gyfeiriad mewn erthygl at lythyr oedd gan George Lewis a oedd wedi ei gyflwyno i'r Llyfrgell pan unwyd Y Coleg Coffa gyda Choleg Bala Bangor. Aeth i'r catalog ar y we ond nid oedd unrhyw gyfeiriad at greiriau'r Coleg Coffa. Galwodd y llyfrgell fwy nac unwaith ac ar ôl hir a hwyr dywedodd un o'r gweithwyr eu bod wedi dod ar draws 23 o flychau a gyflwynwyd gan y Coleg Coffa yn y 1980au. Nid oeddent hyd yn hyn wedi catalogio'r cynnwys. Felly, euthum, gyda'm gwraig i bori trwy flychau creiriau'r Coleg Coffa a daethom ar draws nifer o bethau pwysig. Hoffwn sôn am ddau ohonynt. Mae'r cyntaf yn bwysig i mi gan fy mod yn weinidog Ebeneser, Caerdydd ac mae'r ail yn bwysig i ni fel cenedl.


## Nodiadau

Wrth chwilota trwy'r blychau deuthum ar draws llyfr nodiadau bach gyda chlawr lledr brown. Roedd yn fregus iawn ac yn llawn ysgrifen fechan fach. Wrth ei agor sylweddolais ei fod yn llyfr llawn nodiadau o bregethau gweinidog cyntaf Ebeneser, Caerdydd, sef Lewis Powell, (1788–1869). Fe'm trydaneiddiwyd. Dychmygais fel y bu yn teithio ar droed ar ddechrau'r 19eg ganrif o gynulleidfa i gynulleidfa gyda hwn yn ei law yn pregethu'r Efengyl yn ffyddlon gan wahodd pobl i gredu yn Iesu. Dywedir yn ei gofiant ei fod yn cerdded o Gaerdydd i Abertawe er mwyn cadw cyhoeddiad. Bu farw yn ddisymwth ar ôl pregethu yn Nhresimwn, Bro Morgannwg. Aeth allan o'r capel ac wrth iddo siarad gyda chriw o blant syrthiodd yn farw yn y fan a'r lle. Tybed oedd y llyfr nodiadau hwn yn ei logell?




## Llyfrau Gleision

Yr ail beth yn y blychau oedd copïau o Adroddiad Brad y Llyfrau Gleision 1847. (Roedd cyhoeddiadau swyddogol Llywodraeth San Steffan yn y cyfnod hwnnw gyda chloriau gleision.) Comisiynwyd yr adroddiad yn dilyn cais William Williams, Aelod Seneddol Coventry, Cymro o Lanpumsaint, Sir Gaerfyrddin, yn wreiddiol. Roedd yn




ddyn hynod o wrth-Gymraeg ac yn credu mai pinacl gwareiddiad dynolryw oedd Saeson a'r iaith Saesneg. Yn ôl Williams, roedd angen trefn addysg newydd er mwyn i'r Cymry 'instead of appearing as a distinct people, in no respect differ from the English.' Troi'n Saeson o ran iaith a meddylfryd oedd yr ateb i gyflwr y Cymry. Roedd y Cymry dan anfantais oherwydd 'the existence of an ancient language.'

## Adroddiadau

Ond, yn rhyfeddol i mi, fe fu'r copïau penodol hyn yn eiddo i Ieuan Gwynedd sef Evan Jones, 1820–52 (un arall a fu ar ddiwedd ei oes yn aelod o gynulleidfa Ebeneser). Wrth ddod ar eu traws roedd gwefr arbennig wrth feddwl fod yr hen Ieuan, yn ei wendid mawr, wedi bodio trwy'r rhain wrth ysgrifennu ei amddiffyniad pwysig o Gymry ac yn enwedig merched Cymru. Roedd yr adroddiadau hyn yn difrïo pobl Cymru o fod yn dwp a diaddysg a'u merched o fod yn anllad, anniwair a slac eu moesau. Er mai celwydd oedd hynny, awgrymwyd mai'r rheswm am hyn oedd dylanwad Anghydffurfiaeth a'r iaith Gymraeg. Cyhoeddwyd ei erthyglau ar y pwnc hwn yn y *Shrewsbury Chronicle*, *Yr Amserau*, *The Nonconformist*, *John Bull*, a'r *Monmouthshire Merlin*.

Rydym mor freintiedig fel Cristnogion yng Nghymru am hanes y ffydd yn ein gwlad a'n bod yn rhan o linach sy'n ymestyn yn ôl trwy'r canrifoedd yn adrodd gwaith yr Arglwydd yn ein plith.

# Golygyddol

## Mynd yn grac

Rydym yn byw mewn cymdeithas lle mae llawer o bobl yn barod i ddigio a cholli tymer am y peth lleiaf. Roedd 80% o'r rhai a holwyd mewn arolwg diweddar yn credu bod tueddiad pobl Prydain i fynd yn grac ar gynnydd. Mae hyn yn arbennig o wir ar ein ffyrdd, lle mae 80% hefyd o yrwyr yn dweud iddynt brofi cynddaredd gyrru – *road rage.* Os am gael blas o'r fath ymddygiad, ceisiwch gadw at y gyfraith wrth yrru am sbel mewn parth 20 milltir yr awr. Bydd hi'n fawr o dro cyn bod gyrrwr diamynedd yn eich dilyn yn beryglus o dynn, neu hyd yn oed yn eich goddiweddyd gan godi bys neu ddau arnoch! Nid yw'n syndod mai Prydain sydd â'r lefel uchaf o gynddaredd gyrru yn Ewrop.



### Byddin o bobl flin

Ond os am weld ymddygiad cynddeiriog ar ei orau (neu'i waethaf), trowch at y cyfryngau cymdeithasol. Yno, mae yna fyddin o bobl flin yn pori trwy Facebook, Instagram neu X gan awchu i ladd ar unrhyw un sy'n postio sylw sy'n groes i'w barn hwy. Fel cynghorydd sir, rwy'n hen gyfarwydd â hyn, ond wedi gweld gormod yn fy mywyd i boeni taten am beth mae rhyw *keyboard warrior* llwfr sy'n cuddio tu ôl i ffugenw yn ei ddweud amdanaf! Ar y llaw arall, mae yna bobl sy'n cael ei brifo i'r byw gan sylwadau ar y fath gyfryngau, a rhai plant a phobl ifanc hyd yn oed wedi lladd eu hunain oherwydd sylwadau ffiaidd amdanynt.

### Dicter afresymol

Mae llawer o'r dicter yma'n codi o rwystredigaeth ac anhapusrwydd cymaint o bobl am eu bywydau. Hawdd y gall hynny droi'n ddicter afresymol yn erbyn eraill – *transferred aggression* yw'r ymadrodd yn Saesneg am y fath ymddygiad. Ac mae'n frawychus pan fydd y tueddiad yma'n amlygu ei hun ar lefel wleidyddol, megis y dicter yn erbyn y rhai sy'n croesi'r Sianel mewn cychod bychain i geisio lloches. Fel y gwyddom ni, mae yna wleidyddion ac eraill sy'n corddi casineb yn erbyn ceiswyr lloches, fel petai nhw'n gyfrifol am holl broblemau Prydain. Wrth ganfasio o ddrws i ddrws yn ystod etholiad y Senedd, siom oedd clywed ambell Gymro neu Gymraes Cymraeg eu hiaith yn dweud y bydden nhw'n pleidleisio i Reform oherwydd *'immigreshon!'* – fel petai hynny'n cael yr effaith lleiaf ar eu bywydau yng nghefn gwlad Cymru. Yn oes y *fake news* mae bron yn amhosib goresgyn rhagfarn gyda ffeithiau.

### Dicter cyfiawn

Beth wnawn ni felly o Iesu Grist yn mynd yn grac wrth daflu'r byrddau drosodd yn y Deml? Wel, mae yna wahaniaeth sylfaenol rhwng ymddygiad Iesu a'r dicter yn ein cymdeithas sy'n amlygiad o ragfarn a chasineb di-sail at eraill. Wrth weld 'tŷ gweddi' ei Dad wedi'i droi'n lladd-dy aberth anifeiliaid ac adar, ac yn 'ogof lladron' y rhai oedd yn elwa trwy gyfnewid arian y pererinion oedd yno ar gyfer y Pasg am y *shekel* – sef yr unig arian oedd yn dderbyniol i brynu creaduriaid yr aberth – fe wnaeth Iesu weithredu'n uniongyrchol. Roedd y drefn yn y Deml yn un anghyfiawn, ac mae cyfiawnder yn hanfod y Duwdod, fel y dylai fod i ni yn ein cymdeithas a'n byd heddiw.

### Troi dicter yn rym heddychol

Mae hawl gyda ni i deimlo'n grac pan fod bomiau lluoedd arfog Israel yn lladd plant bach yng ngwlad Libanus, drônau Rwsia yn taro cartrefi yn Kyiv, eithafwyr Islamaidd yn treisio merched ac yn lladd cannoedd o Gristnogion mewn eglwysi yn Nigeria. Yr her i ni yw troi'r ymdeimlad yna o ddicter yn rym heddychol, positif ac effeithiol. Mae gweddïo a chyfrannu at elusennau sy'n gweithio i leddfu dioddefaint y rhai sy'n cael cam yn ffyrdd hawdd ac amlwg. zwleidyddion yn mynnu iddynt ddefnyddio eu dylanwad i bwyso am ddatrysiad heddychol i bob gwrthdaro. Oherwydd os na chaiff ollyngdod positif, mae perygl y gall dicter aros ynom fel grym gwenwynig. Ond o'i sianelu'n iawn, gall droi'n egni i weithredu dros gyfiawnder a heddwch.

**Alun Lenny**

# GOHEBIAETH

## Gwerthfawrogiad



Roedd yn bleser darllen myfyrdod gan Neville Evans ychydig wythnosau yn ôl. Yn wir, chwarae teg iddo am barhau i feddwl mor ddwfn am waith Iesu ac yntau'n 87 oed – mae hynny'n esiampl i ni gyd. Gobeithio'n fawr y bydda' i'n medru dangos yr un brwdfrydedd a ffyddlondeb dros y blynyddoedd.


Wrth ystyried y newidiadau a drafodir, mae'n bwysig cofio mai canolbwynt pob cyfarfod yw pregethu'r Efengyl. Dyna'r alwad sylfaenol sydd arnom fel Cristnogion. Nid yw rhannu gair o dystiolaeth nac annog eraill yn dibynnu ar ordeiniad – gall unrhyw un rannu'r hyn y mae Duw wedi'i roi ar ei galon/chalon.

Yn hytrach na theimlo'n gyfyngedig gan drefn neu draddodiad, dylem geisio arweiniad Duw yn weddïgar, gan ofyn am ysbrydoliaeth a doethineb. Mae'r Ysbryd Glân yn medru gweithio trwy bob un ohonom, os ydym yn fodlon gwrando ac ufuddhau.

Boed inni felly barhau i chwilio am ffyrdd newydd o gyrraedd pobl, ond heb golli'r prif beth – sef rhannu neges Iesu Grist yn glir ac yn fyw.

Diolch Neville!

**Rhys Locke**

CRISTNOGAETH 21
Trafodaeth ar Zoom
Mehefin 29, 18.30 – 19.30
- Pwy ydyn ni?
- Beth ydyn ni'n ei wneud?
- Beth yw ein cynlluniau?

Dewch i ddysgu mwy am C21 ac ymuno yn y sgwrs

I gael y ddolen Zoom, anfonwch neges at cristnogaeth21@gmailcom

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru


*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Caersalem Pontyberem

Prynhawn Sadwrn 25 Ebrill cynhaliwyd te prynhawn yn y festri. Cafwyd gwledd o ddanteithion a chyfle am sgwrs wrth gymdeithasu yn braf gyda'n gilydd a hel atgofion.








## Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL

24-26 Mehefin 2026
Gwesty'r Towers, Abertawe SA10 6JL

| | |
|---|---|
| 24 MEHEFIN / 1:30 | CYNHADLEDD 1<br>Dan ofal y Llywydd, Owain Llŷr Evans |
| 24 MEHEFIN / 3:30 | CYFLWYNIAD YR ARDAL LEOL<br>Yng nghwmni'r Athro Prys Morgan |
| 24 MEHEFIN / 5:00 | Y RHWYDWAITH HEDDWCH<br>Siaradwr gwadd: Mererid Hopwood |
| 24 MEHEFIN / 7:30 | CYNGERDD ABERTAWE: DINAS NODDFA<br>Tabernacl, Treforys. SA6 8BR |
| 25 MEHEFIN / 4:30 | CYFARFOD HANES<br>Siaradwr gwadd: Tudur Dylan Jones |
| 25 MEHEFIN / 7:30 | OEDFA O FAWL<br>Capel y Nant, Clydach. SA6 5HB |
| 26 MEHEFIN / 9:30 | DEFOSIWN<br>Cyfundeb Gorllewin Morgannwg |
| 26 MEHEFIN / 10:00 | Y RHWYDWAITH MERCHED<br>Lansio ymgyrch Glandeg |
| 26 MEHEFIN / 12:00 | OEDFA'R LLYWYDD |

FFRWD FYW: annibynwyr.cymru

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*